# Chwilio am waith?

Mae llawer o ddiweithdra y dyddiau hyn ac, yn anffodus, mae llawer o bobl ifanc yn cael anhawster i gael swydd gan fod y gystadleuaeth mor gryf. Sut, felly, y gallwch chi wella'ch siawns chi o gael swydd?

Y cam cyntaf, wrth gwrs, yw ymgeisio am swydd. Mae'n bosib gwneud hyn drwy ysgrifennu llythyr cais neu mae rhai cwmnïau'n gofyn i chi anfon CV neu lenwi ffurflen gais.

Os ydych chi'n paratoi C.V., dylech chi gynllunio'n ofalus a'i ysgrifennu'n daclus gan wneud yn siŵr ei fod yn adlewyrchiad teg ohonoch chi. Mae angen eich manylion personol – enw, cyfeiriad, dyddiad geni, cymwysterau – i ddechrau. Yna, mae'n bwysig egluro pa fath o berson ydych chi, pa brofiad rydych chi wedi'i gael a pha sgiliau rydych chi wedi'u datblygu. Er enghraifft, os ydych chi'n dweud eich bod chi'n gweithio mewn caffi bob dydd Sadwrn, eglurwch pa sgiliau rydych chi wedi eu dysgu yno e.e. trin arian, delio gyda chwsmeriaid ac ati. Dylech chi addasu eich C.V. yn aml, er mwyn ei ddiweddaru ond hefyd fel ei fod yn pwysleisio pam rydych chi'n addas ar gyfer swydd benodol.

Weithiau, rhaid i chi lenwi ffurflen gais er mwyn ymgeisio am swydd. Llenwch bob adran o'r ffurflen yn ofalus a thaclus, naill ai gopi papur neu ffurflen ar-lein. Argraffwch gopi ar eich cyfer chi eich hun fel eich bod chi'n gallu ei ddarllen eto os cewch chi wahoddiad i gyfweliad. Fel arfer, bydd adran ar y ffurflen yn gofyn i chi nodi'ch profiad a'ch sgiliau chi. Cynlluniwch yr adran hon yn ofalus. Peidiwch â rhestru'ch profiadau fesul un ond gwnewch yr un peth â'ch C.V. - nodwch y sgiliau rydych chi wedi eu dysgu o'r profiadau.

Mae ffurflen gais neu C.V. da yn gallu 'agor y drws' i chi. Beth ydy 'agor y drws'? Wel, mae'ch C.V. neu'ch ffurflen gais chi'n gallu 'agor y drws' i gyfweliad. A dyna'r cam nesaf – cam hynod o bwysig, achos mewn cyfweliad mae cyflogwyr yn chwilio am y bersonoliaeth fwyaf addas ar gyfer y swydd; rhywun sy'n gallu dangos hyder; rhywun sy'n gallu profi ei fod e/hi yn fanwl a chywir ym mhopeth mae'n ei wneud. Maen nhw'n chwilio am rywun sy'n dangos brwdfrydedd am y gwaith, rhywun sydd wedi ymchwilio i natur y gwaith ac sydd wedi dod o hyd i wybodaeth am y cwmni o flaen llaw. Ydych chi'n cefnogi tîm Cymru'n angerddol? Ie, yn angerddol. Yr angerdd a'r brwdfrydedd yna sydd ei angen yn y cyfweliad hefyd!

Mae'r cyfweliad yn gyfle i chi ddangos eich bod chi'n well na'r bobl eraill sy'n cael cyfweliad, felly paratowch ymlaen llaw - meddyliwch beth hoffech chi ei ddweud amdanoch chi'ch hun ond byddwch yn onest. Meddyliwch hefyd am gwestiynau i'w gofyn. Mae'r ffordd rydych chi'n gwisgo'n bwysig hefyd. Cofiwch, rydych chi eisiau creu argraff, felly peidiwch â gwisgo siorts a chrys T! Gwisgwch yn drwsiadus! Does dim rhaid gwisgo siwt neu ddillad drud - yr ymadrodd mae cyflogwyr yn ei ddefnyddio weithiau ydy *smart casual.* Fechgyn: gwallt taclus, crys a throwsus taclus. Efallai y byddai'n syniad da gwisgo siwt a thei os ydych chi'n ymgeisio am swydd mewn banc, ond does dim rhaid bod mor ffurfiol â hyn ar gyfer pob cyfweliad. Ferched: edrychwch yn naturiol ac yn hyderus ond ddim yn orhyderus. Dewiswch eich dillad yn ofalus!

Un o'r dulliau gorau o gyfathrebu yw gwenu, felly gwenwch - hyd yn oed os byddwch chi'n teimlo'n nerfus. Edrychwch ar bawb sydd ar y panel cyfweld. Peidiwch ag edrych ar yr un sy'n gofyn y cwestiwn yn unig.

Ar ôl ymgeisio, a gwneud eich gorau yn ystod y cyfweliad, mae gobaith y byddwch chi'n cael y swydd. Bydd hynny'n golygu y byddwch chi'n ennill cyflog, wrth gwrs, a byddwch chi'n cael cyfle i gael dyrchafiad yn eich swydd yn y dyfodol, gobeithio. Ond y peth pwysicaf i'r rhan fwyaf o bobl yw mwynhau'r gwaith, drwy roi gwasanaeth da i'r cwsmer a thrwy gydweithio â phobl eraill. Mae'n debyg iawn i'r teimlad pan fyddwch chi'n canu mewn côr neu'n perthyn i dîm chwaraeon.

Os cadwch chi'r canllawiau hyn mewn cof am weddill eich bywyd, mae'n siŵr y byddwch chi'n cael gyrfa lwyddiannus iawn. Pob lwc i chi!